WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Memorandwm Atodol Archwiliwr Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Contractau Gwerthiannau Pren

Date issued: Mawrth 2017

Document reference: 253A2017

Rwyf wedi paratoi'r memorandwm hwn ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ategu wrth ystyried fy adroddiad ar y cyfrifon ariannol o ran Adnoddau Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Memorandwm Atodol

| | |
|---|---|
| Cyd-destun | 4 |
| Cronoleg | 5 |
| Cydymffurfio â fframwaith awdurdo | 11 |
| Cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth wneud penderfyniadau | 15 |
| Cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol | 20 |

# Cyd-destun

1 Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw CNC, a grëwyd er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn:

- cael eu cynnal yn gynaliadwy;
- cael eu gwella yn gynaliadwy; ac
- cael eu defnyddio yn gynaliadwy.[1]

2 Daeth CNC i rym o 1 Ebrill 2013 ymlaen, gan gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau cyn-Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Rheolodd CNC ddwy flynedd gyntaf ei ddatblygiad fel cyfnod 'trosiannol', gan anelu ar reoli cysondeb ac ar yr un pryd ddwyn ynghyd swyddogaethau'r cyrff a etifeddodd. Ym mis Chwefror 2016, cyhoeddais adroddiad Gwerth am Arian ar ddatblygiad CNC oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- creu CNC a'i redeg yn ei gyfnod trosiannol dwy-flynedd cychwynnol, gan gynnwys ei gynnydd o ran cael y manteision a fwriadwyd o'i greu; a'r
- trefniadau yr oedd CNC yn eu gosod i gefnogi ei gyfnod trosiannol.

3 Canfûm fod: 'CNC [wedi] mabwysiadu agwedd gadarn ac wedi ei strwythuro'n dda at gwrdd â'r heriau sylweddol oedd yn ymhlyg yn ei greu; sicrhau cysondeb wrth gyflwyno ystod eang o swyddogaethau a chyda chanolbwynt clir ar gael y manteision a fwriadwyd, a [bod] CNC wedi dysgu o'r cynnydd a wnaed a'r heriau a wynebwyd ac yn fwrw ymlaen gyda rhaglen fwy uchelgeisiol a chynhwysfawr o newid, oedd yn angenrheidiol er mwyn trawsnewid ei hun at y dyfodol ac ymdopi â newidiadau deddfwriaethol a phwysau ar adnoddau'.[2]. Er bod fy adroddiad ar gyfrifon CNC am 2015/16 yn datgan rhai pryderon penodol am reoleidd-dra contractau gwerthu pren a ddyfarnwyd gan CNC i weithredwr melin lifio ym mis Mai 2014, yr wyf yn fodlon o hyd bod agwedd CNC at reoli'r cyfnod trosiannol yn gadarn ac wedi strwythuro'n dda.

[1] Yr oedd Deddf Amgylchedd Cymru Act 2016 yn diwygio pwrpas cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru i: 'Rhaid i'r corff reoli yn gynaliadwy adnoddau naturiol yng nghyswllt Cymru, a chymhwyso egwyddorion rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth gyflawni ei swyddogaethau, cyhyd ag sy'n gyson â'u cyflawni yn iawn.'

[2] **Datblygu Adnoddau Natuiol Cymru**, Chwefror 2016

4 Un o’r prif heriau gweithredol fu’n wynebu’r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru cyn yr uno oedd sut i reoli a chyfyngu ar ledaeniad Phytophthora Ramorum (P Ramorum) mewn coedwigoedd a choedlannau llarwydd. Pathogen tebyg i ffwng yw P Ramorum sydd yn achosi difrod helaeth i amrywiaeth eang o goed a phlanhigion eraill, ac yn eu lladd hefyd. Daethpwyd o hyd i P Ramorum mewn llarwydd Siapaneaidd yng Nghymru yn 2010. Gwnaed ymdrechion i reoli lledaeniad y clefyd trwy gwympo wedi’i dargedu, ond buan y lledaenodd y clefyd. Yn dilyn ei sefydlu, etifeddodd CNC yr her hon, a wynebwyd hi â gorfod cymryd camau brys i gadw rheolaeth ar y clefyd. Yn ystod haf 2013, nododd CNC fod cynnydd sydyn yn lledaeniad P Ramorum a bod yn rhaid i CNC ddod o hyd i ateb tymor-hir a fyddai’n gwrthweithio’r clefyd. Dywedodd CNC wrthyf mai eu bwriad wrth ateb yr her hon oedd yn bennaf ac yn anad dim i gynyddu’r gallu i drin llarwydd oedd â’r clefyd, ac osgoi tarfu ar y fasnach oedd eisoes yn bod mewn mathau eraill o goed.

# Cronoleg

## Ymarferiad tendro am gontractau gwerthiant tymor-hir llarwydd

5 Yn gynnar yn 2013, penderfynodd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, a hwythau’n wynebu nifer sylweddol o Rybuddion Statudol Iechyd Planhigion[3] dros ardal ddaearyddol helaeth, y byddai angen cwympo llarwydd ar raddfa fawr os am reoli P Ramorum yn effeithiol. Datblygwyd gwahoddiad i dendro (GiD), lle byddai partïon â diddordeb yn cael gwahoddiad i dendro i brynu pren llarwydd gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru. Etifeddodd CNC y broses dendro gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru ar 1 Ebrill 2013 o ganlyniad i’r uno.

6 Yn Ebrill 2013, cyhoeddodd CNC GiD am ddau gontract tymor-hir (CTH) ‘i glirio a marchnata clystyrau o Larwydd heintiedig. Bydd pob contract yn 330,000m3obs [oddeutu 266,000 tunnell] dros gyfnod o bum mlynedd’[4]. Dywedai’r GiD y dyfernid y contract ‘ar sail o gyfuniad o’r pris fyddai’n cael ei gynnig a chysylltiadau clir y gellid eu dangos â’r modd y bydd y pren yn cael ei gynaeafu a’i brosesu gan darfu cyn lleied ag sydd modd ar yr adnodd cynaeafu neu brosesu presennol yng Nghymru’. Mae’n glir felly y byddai penderfyniad CNC ar ddyfarnu’r contract yn cymryd i ystyriaeth y pris ac ystyriaethau ehangach y farchnad o ran sut y caiff y pren ei gynaeafu a’i brosesu, gyda’r amcan o darfu cyn lleied ag sydd modd ar adnoddau cynaeafu a phrosesu yng Nghymru. Datganodd y GiD yn glir fod posibilrwydd y cynhelid trafodaethau pellach gyda bidwyr cyn dyfarnu’r.

[3] Mae Rhybuddion Statudol Iechyd Planhigion yn mynnu bod y tirfeddiannwr yn cwympo, dinistrio a/neu yn cyfyngu ar goed heintiedig o fewn cyfnod o amser penodedig. Yng Nghymru, cyhoeddwyd y rhybuddion gan y Comisiwn Coedwigaeth tan 31 Mawrth 2013 ac yna gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o’u swyddogaethau rheoleiddio.

[4] $m^3$ obs = metrau ciwbig trosrisgl yn sefyll, h.y., cyfaint o bren mewn coed oedd yn sefyll, gan gynnwys y rhisgl.

7 Derbyniodd CNC dri thendr, un wedi ei gyflwyno gan weithredwr y felin lifio. Yn ei ymateb i'r GiD, gosododd gweithredwr y felin lifio allan gynlluniau am fuddsoddiad mewn seilwaith yn ei eiddo yng Nghymru. Nododd y cyflwyniad: 'Po fwyaf y cyfeintiau o ymrwymiadau contract tymor-hir y gellir eu cael mewn llarwydd a phyrwydd, mwyaf o sicrwydd a phwysau fydd i'r penderfyniad am y buddsoddiad hwnnw. Mae'n annhebygol y byddai sicrhau un yn unig o'r pecynnau y tendrwyd amdanynt yn rhoi digon o fas critigol er mwyn sicrhau cyllid i'r buddsoddiad ac o'r herwydd, cynigiwn ddau bris dechreuol sydd yn rhoi mwy o werth i CNC am y cyfeintiau uwch trwy ddyfarnu'r ddau gontract.' Mae'n glir o gyflwyniad gweithredwr y felin lifio fod gweithredwr y felin lifio yn ceisio cael y ddau gontract llarwydd wedi'u dyfarnu iddo, ac i CNC ddarparu ymrwymiadau contractaidd tymor-hir yng nghyswllt llarwydd a phyrwydd, er mwyn sicrhau'r buddsoddiad yn eiddo gweithredwr y felin lifio yng Nghymru.

8 Gwerthuswyd y tendrau ar 19 Mehefin 2013 ar sail cyfuniad o bris ac agwedd gyffredinol pob bidiwr at gyflawni'r contract. Wedi'r gwerthusiad, cynhaliodd CNC drafodaethau gyda phob un o'r bidwyr, yn unol â'r GiD.

9 Yng Ngorffennaf 2013, cyhoeddodd CNC adroddiad ar y tendr. Dywedodd yr Adroddiad, ers cyhoeddi'r GiD, fod y clefyd wedi lledaenu'n sylweddol tua'r gogledd a'r dwyrain ac y byddai angen cwympo o leiaf 350,000m3obs (c 282,000 tunnell) o larwydd bob blwyddyn am nifer o flynyddoedd i ddod. O ganlyniad, yr oedd amodau ac amcanion y tendr wedi 'newid yn sylweddol'.

10 Nododd adroddiad Gorffennaf 2013, er bod cyfaint cyffredinol y llarwydd oedd i'w cwympo hyd at 2025/26 wedi aros yr un fath, yr oedd cynllun symud llarwydd CNC ym Mehefin 2013 angen cwympo cyfaint uwch o larwydd yn y blynyddoedd hyd at 2019/2020 a llai wedi hynny (h.y. 'blaen-lwytho' y cwympo). Yr wyf yn fodlon fod yr adroddiad wedi rhoi cyfiawnhad i CNC wyro oddi wrth y llwybr a osodwyd allan yn y GiD.

11 Cyfeiriodd yr adroddiad at y risgiau allweddol pe na fyddai CNC yn dyfarnu digon o gontractau oedd yn adlewyrchu'r cynnydd yn y rhaglen llarwydd. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi fod y cynigion am linell logiau fechan y gweithredwr y felin lifio a gwaith pelennu Bidiwr 3 ill dau yn gyfystyr â chapasiti newydd ac effeithiol y byddai ei fawr angen er mwyn marchnata'r cynhaeaf llarwydd fyddai'n cynyddu. Yn fy marn i, yr oedd y rhain oll yn ystyriaethau perthnasol i CNC eu hystyried wrth bennu sut orau i fwrw ymlaen.

12 Mae'r adroddiad yn gosod allan asesiad CNC o'r tri ymateb i'r tendr ac yn edrych ar yr elw ariannol fyddai'n deillio ohonynt. Dyfarnwyd canran sgôr cyffredinol i bob bid fel a ganlyn:

- Bidiwr 1 – 92.78%
- Bidiwr 2 – [tendr gweithredwr y felin lifio] – 79.31%
- Bidiwr 3 – 75.42%

13 Mae’r adroddiad yn gosod allan fanteision ac anfanteision y gwahanol ddewisiadau i ddyfarnu; er enghraifft, dyfarnu cyfaint y cynnig yn unol â sgorio’r GiD i Fidiwr 1. Yn y pen draw, mae’r adroddiad yn argymell cynnig y cyfaint gwreiddiol i Fidiwr 1 a/neu Bidiwr 3 a ‘chynnig [i weithredwr y felin lifio] gyfaint sefydlog pellach i ymdrin â’r cynnydd enfawr yn y rhaglen LLD, ynghyd ag elfen log a bar’. Un o’r rhesymau a ddatganwyd am ffafrio’r dewis hwn oedd y byddai’n annog y buddsoddiad yn llinell lifio Gymreig gweithredwr y felin lifio, a gwaith pelennu ynni Bidiwr 3.

14 Yr oedd yr adroddiad yn cydnabod fod y ffordd hon a argymhellwyd o fwrw ymlaen yn gofyn am: ‘gamu y tu allan i delerau’r tendr gwreiddiol o ran cyfaint a lleoliad mewn ymateb i’r galw o du’r cynllun cyfredol amnewid llarwydd’. Cydnabu’r adroddiad hefyd fod risg o her gan y proseswyr pren eraill, ond ym marn CNC, nad oedd yn debygol y deuai unrhyw fidwyr newydd i’r golwg petai’r ymarferiad tendro yn cael ei ail-gynnal. Dywedodd yr adroddiad fod y risg o gael her o ganlyniad i wyro oddi wrth y GiD, wedi ei gydbwyso yn erbyn y risg uwch na fyddai CNC yn gwneud digon o gofio lefelau cynyddol yr heintio a’r gofyniad marchnata/cynaeafu, a’r risg y byddid yn colli llinell lifio Gymreig gweithredwr y felin lifio pe na bai CNC yn gweithredu. Dywedodd e-bost mewnol gan Bennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd CNC ar 8 Gorffennaf 2013: ‘fe allwn gynnal ymarferiad arall; fodd bynnag, rydym yn siŵr na fyddwn [ni] yn derbyn bidiau newydd gan neb ond y bidwyr presennol yn yr ymarferiad cyfredol – byddai methu â gwneud hyn yn golygu mwy o oedi cyn sefydlu contractau i drin y clefyd.

## Proses ddeialog gystadleuol wedi’r tendr

15 Ar ddiwedd Gorffennaf 2013, ysgrifennodd CNC at y bidwyr i’w hysbysu am ganlyniad y broses dendro. Hysbyswyd gweithredwr y felin lifio na fu’n llwyddiannus yn y broses dendro, ond fod CNC yn barod i wneud cynnig i weithredwr y felin lifio am glwstwr o goed llarwydd yng Nghoedwig Llanymddyfri o 65,000$m^3$obs (c 52,400 tunnell) y flwyddyn am bum mlynedd. Yr oedd y cyfaint hwn yn cyfateb i un o’r ddwy lot yn y tendr gwreiddiol. Yr oedd yr ohebiaeth hefyd yn dweud fod dewis i ymestyn hyn, a phosibilrwydd cyflenwad pellach o larwydd o gynhyrchu uniongyrchol fel rhan o gynnig y dymunai CNC drafod gyda gweithredwr y felin lifio ‘er mwyn sicrhau’r cynigion oedd yn cael eu rhoi gerbron’.

16 Mae’n amlwg o e-byst cyfoes nad oedd gweithredwr y felin lifio yn hapus â’r cynnig, a’i fod yn cynnal deialog gyda CNC am hyn.

17 Ar 2 Awst 2013, ysgrifennodd gweithredwr y felin lifio at CNC yn dweud: 'fel yr esboniwyd yn ein sgwrs yn gynharach heddiw, rwyf wedi dychryn ac yn gresynu'n fawr fod CNC wedi trin gweithredwr y felin lifio mewn modd mor ddi-hid a di-weledigaeth …… Yn amlwg, mae CNC yn rhoi mwy o werth ar fusnes contractio cynaeafu a melin lifio o Loegr nac ar weithredwr y felin lifio, ac os erys y sefyllfa felly, byddwn yn buddsoddi ein hamser a'n harian yn rhywle arall y tu allan i Gymru. Mae'r 'cynnig' gan [y Pennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd] yn hollol annigonol ac annerbyniol. Mae arnom angen ymrwymiad llawer cadarnach a helaethach os ydym am ymwneud eto â CNC. Byddwn yn dod i gysylltiad â chi gyda manylion penodol; fodd bynnag, mae amser yn bwysig, tra byddwn yn adolygu ein cynllun strategol yng Nghymru at y dyfodol ac yn hysbysu'r Gweinidogion o'n penderfyniadau.'

18 Cyfarfu CNC â gweithredwr y felin lifio ar 12 Awst 2013 i drafod contractau llarwydd a phyrwydd. Mewn e-bost ar 22 Awst 2013, dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd wrth weithredwr y felin lifio fod CNC wrthi yn ystyried cynigion gweithredwr y felin lifio yng nghyswllt contractau pyrwydd a llarwydd ac, mewn egwyddor, nad oedd gan CNC wrthwynebiad i gynnig estyniad o'r CTH am gyfnod o rhwng pump a deng mlynedd.

19 Yn Awst 2013, paratôdd Pennaeth Marchnata Pren CNC bapur: **Datblygu dewisiadau i Fuddsoddiad Llarwydd gweithredwr y felin lifio a chanllawiau ehangach am amnewid CTH Pyrwydd**, i'w ystyried gan Dîm Gweithredol CNC. Er bod y papur wedi ei baratoi i'w ystyried gan Dîm Gweithredol CNC, nid oes digon o dystiolaeth gyfoes ei fod wedi ei ddarparu i'r Tîm Gweithredol na'i ystyried ganddynt.

20 Gosododd y papur allan gynllun clirio llarwydd diwygiedig dyddiedig Gorffennaf 2013 oedd yn mynnu bod hyd yn oed mwy i'w gwympo yn y blynyddoedd cynharach - 350,000$m^3$obs (c 282,000 tunnell) y flwyddyn am y blynyddoedd 2014/15 i 2019/20. Nodwyd fod y llarwydd a gynigiwyd i'r farchnad gan CNC wedi eu hamsugno trwy amnewid, ond fod angen cynyddu'r gallu prosesu cyffredinol ar gyfer llarwydd.

21 Dywedodd y papur y cynigiwyd y ddau gontract sefydlog o 65,000$m^3$obs (c 52,400 tunnell) yr un y flwyddyn am bum mlynedd i Fidiwr 1 ac un i Fidiwr 3, oll yn ardal Dosbarth Coedwig Coed y Cymoedd a chynigiwyd contract sefydlog arall am 65,000$m^3$obs (c 52,400 tunnell) i weithredwr y felin lifio yn Nosbarth Coedwig Llanymddyfri, h.y. contract o'r un faint â'r naill neu'r llall o'r ddau gontract a hysbysebwyd yn y GiD, ond mewn lleoliad gwahanol. Nododd y papur nad oedd gweithredwr y felin lifio yn 'fodlon â'r cynnig a wnaed iddynt'. Aeth y papur ymlaen i esbonio fod CNC yn ymwybodol fod gweithredwr y felin lifio angen cyflenwad gwarantedig pellach o gyfaint llarwydd cyn ymrwymo i gynyddu'r capasiti yn ei safle yng Nghymru, a'i fod wedi awgrymu na fyddai'r buddsoddiad yn y safle hwnnw oni ellid cynnig rhyw ernes iddo am gyflenwad cyson o elfen pyrwydd i'r felin. Yr oedd hyn yn adlewyrchu datganiadau gweithredwr y felin lifio mewn ymateb i'r GiD.

22 Gosododd y papur allan lawer dewis, ond daeth i'r casgliad ei fod yn hanfodol i sicrhau datblygiad arfaethedig yn eiddo Cymreig y gweithredwr 'gan y bydd yn rhoi ateb marchnata i'r elfen llifio logiau fydd yn deillio o'r saith miliwn metr giwbig posib o goed llarwydd sefydlog [o goetiroedd cyhoeddus a phreifat] fydd yn rhaid eu cwympo yng Nghymru a'r Gororau dros y 10 i 12 blwyddyn nesaf'. Dangosodd y ddogfen hefyd fod cynllun clirio llarwydd CNC yn amcangyfrif y byddai'n rhaid i CNC glirio 2.8 miliwn metr giwbig o goed llarwydd erbyn 2025/26, a bod y clystyrau heintiedig oedd yno ar y pryd eisoes bron yn un filiwn metr giwbig ar y Stâd Gymreig, a bod heintiad pellach yn bosib.

23 Noda'r papur hefyd ei bod yn annhebygol y gwelai CNC gynnig cystal petai yn mynd at y farchnad, (er nad oes tystiolaeth yn y papur i gefnogi'r honiad hwnnw), a bod amser yn hollbwysig yng nghyswllt y buddsoddiad a gynlluniwyd yn safle Cymreig gweithredwr y felin lifio.

24 Argymhellodd y papur gynnig contractau am larwydd a phyrwydd i weithredwr y felin lifio. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid oes digon o dystiolaeth gyfoes fod y papur wedi ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol neu i Fwrdd CNC am benderfyniad. Deallaf felly fod y penderfyniad i fwrw ymlaen ar y sail hon wedi ei gymryd gan swyddogion CNC trwy arfer pwerau dirprwyedig. Dywedodd y papur y gellid synied am y dewis a argymhellwyd fel un cynhennus: 'yr ydym yn cydnabod fod perygl o edrych fel petaem yn ffafrio gweithredwr y felin lifio petai cyfaint oedd i fynd i'w cyfleuster hwy fyddai'r unig rai a gafodd estyniad contract tymor-hir, fyddai'n cael yr effaith o leihau cyfle i eraill mewn gwerthiannau yn y dyfodol'.

25 Nododd papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd dyddiedig 15 Hydref 2013 dan y teitl: 'Cyfoesiad am Phytophthora ramorum' fod 'lefel gyffredinol diffyg cydymffurfio â Rhybuddion Statudol Iechyd Planhigion wedi codi'n sydyn ar ddiwedd Awst, gan mai dyma oedd y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio, ac y nodwyd 2000Ha o heintiadau newydd ar Stâd Coetiroedd Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn honno'. Yr oedd y cyfoesiad yn cyfeirio at y broses o fidio cystadleuol a'r contractau a gynigiwyd, gan nodi y gall fod y swm terfynol a gynigir fod yn uwch, yn dibynnu ar ganlyniadau trafodaethau ynghylch penderfyniadau buddsoddi gan y proseswyr. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth fod manylion y trafodaethau wedi eu dwyn i sylw'r Tîm Gweithredol na'r Bwrdd ar y pryd.

26 Yn Nhachwedd 2013, ceisiodd y Pennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd fwy o wybodaeth gan weithredwr y felin lifio er mwyn i CNC wneud penderfyniad terfynol. Ymatebodd gweithredwr y felin lifio ar 11 Tachwedd 2013.

27 Ar 14 Tachwedd 2013, e-bostiodd y Pennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd weithredwr y felin lifio i gadarnhau, mewn egwyddor, fod CNC yn fodlon gyda'r mecanwaith brisio a'u bod yn dod i mewn i'r contract deng mlynedd. Ni allodd CNC ddarparu e-byst na dogfennaeth fewnol ynghylch eu ffordd o wneud y penderfyniad, felly ni allaf gadarnhau'r rhesymau mewnol dros y penderfyniad. Yn ei ebost ar 14 Tachwedd 2013, dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd y byddai manylion i'w cadarnhau gyda gweithredwr y felin lifio gan y byddai hyn yn digwydd dros yr wythnosau nesaf.

28 Yn ddiweddar, rhoes CNC beth tystiolaeth gyfoes bellach i mi ynghylch y trafodaethau am y contract a ddigwyddodd rhwng Tachwedd 2013 a Mai 2014, er y nodaf yr erys rhai bylchau yn y ddogfennaeth.

## Dyfarnu'r Contract

29 Ym Mai 2014, llofnododd cyn-Gyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol CNC wyth contract gwerthu pren rhwng CNC a gweithredwr y felin lifio a Memorandwm Dealltwriaeth hollgyffredinol. Pennir dyddiad cychwyn y contract fel 1 Ebrill 2014. Erys y contractau mewn grym.

30 Mae'r wyth contract gwerthu coed cysylltiedig wedi eu gosod allan yn Nhabl 1.

Tabl 1: contractau gwerthu coed a ddyfarnwyd gan CNC i weithredwr y felin lifio ym Mai 2014

| Contract | Math o gontract | Cyfnod y contract (blynyddoedd) | Teip o rywogaeth | Cyfaint y Contract (tunelli) | Cyfaint Blynyddol (tunelli) |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Gwerthu pren a gwympwyd | 10 | Pyrwydd | 100,000 | 10,000 |
| B | Gwerthu pren a gwympwyd | 10 | Pyrwydd | 350,000 | 35,000 |
| C | Gwerthu pren a gwympwyd | 10 | Llarwydd | 70,000 | 7,000 |
| D | Gwerthu pren a gwympwyd | 10 | Llarwydd | 150,000 | 15,000 |
| E | Gwerthu coed oedd yn sefyll | 10 | Llarwydd | 525,000 | 52,500 |
| F | Gwerthu coed oedd yn sefyll | 10 | Pyrwydd | 162,000 | 16,200 |
| G | Gwerthu coed oedd yn sefyll | 10 | Pyrwydd | 242,000 | 24,200 |
| H | Gwerthu coed oedd yn sefyll | 5 | Llarwydd | 262,500 | 52,500 |
| | | | | **1,861,500** | **212,400** |

## Buddsoddi mewn llinell lifio newydd

31 Yn Awst 2015, ysgrifennodd cyn-Bennaeth Gweithrediadau Coedwigoedd CNC at weithredwr y felin lifio ynghylch pryder CNC na fyddai gweithredwr y felin lifio yn cwrdd â'i ddyletswydd gontractaidd i adeiladu a dechrau rhedeg llinell lifio newydd ar ei safle yng Nghymru erbyn 31 Mawrth 2016. Ymatebodd gweithredwr y felin lifio gan osod allan y rhesymau pam yr oedwyd y prosiect, ac yn gofyn am estyniad i derfyn amser y contract. Ym Mawrth 2016, cytunodd CNC a gweithredwr y felin lifio ar amrywiad i'r contract lle'r estynnwyd y terfyn amser er mwyn i'r gweithredwr allu adeiladu a chychwyn rhedeg y llinell lifio newydd tan 31 Mawrth 2017.

# Cydymffurfio â fframwaith awdurdod

## Trefniadau dirprwyo mewnol

32 Mae swyddogaethau CNC wedi eu gosod allan yng Ngorchymyn (Sefydlu) Corff Adnoddau Naturiol i Gymru 2012 (Gorchymyn 2012). Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys ymgymryd ag unrhyw swyddogaeth a ddatganolwyd i'r Comisiynau Coedwigaeth. Mae gan CNC y grym felly i reoli'r stad goedwigoedd sydd mewn dwylo cyhoeddus a gwneud y penderfyniadau angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno yn effeithiol. Mae Gorchymyn 2012 yn datgan y gallai CNC ddirprwyo cyflawni ei swyddogaethau i bwyllgor, is-bwyllgor, aelod neu weithiwr CNC. Mae hyn yn cynnwys dod i gontractau gyda chyflenwyr a phrynwyr allanol.

33 Cymeradwyodd y Bwrdd 'Gynllun Dirprwyo Ariannol' oedd yn sicrhau fod holl weithgareddau ariannol CNC wedi eu dirprwyo i lefel gytunedig o awdurdod neu i ddeiliad swydd benodol. Caniataodd i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ariannol. Yr oedd y Cynllun Dirprwyo Ariannol oedd yn bodoli yn 2014 yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Menter i lofnodi contractau cynaeafu pren oedd yn werth dros £1 miliwn.

34 Rhoddwyd y llofnod terfynol i'r contractau gyda gweithredwr y felin lifio gan Gyfarwyddwr Gweithredol dros Wasanaethau Cenedlaethol CNC, a oedd yn aelod o Dîm Gweithredol CNC gyda chyfrifoldebau gweithredol dros weithrediadau coedwigaeth (a rheolwr llinell y Pennaeth Menter). Yr wyf o'r farn fod gan y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Wasanaethau Cenedlaethol yr awdurdod dirprwyedig angenrheidiol i gynnal gwerthiannau pren o unrhyw werth.

35 Datganodd Cynllun Dirprwyo Ariannol CNC fod: 'yn rhaid i'r holl staff dynnu sylw eu rheolwr llinell os ydynt yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau ariannol lle, yn eu barn hwy, y dylai'r Prif Weithredwr a/neu y Bwrdd fod eisiau ymgynghori â hwy, yn enwedig os oes a wnelo ag unrhyw weithred newydd, anarferol, neu ariannol gynhennus'. Yr wyf yn ystyried fod y penderfyniad i gontractio gyda gweithredwr y felin lifio yn gynhennus ac yn ôl-effeithiol am y rhesymau a osodwyd allan ym mharagraff 44.

36 Er bod CNC yn ystyried nad oedd y Cynllun Dirprwyo Ariannol yn mynnu y dylid cyfeirio'r mater at Fwrdd neu Dîm Gweithredol CNC, darparodd dystiolaeth fod y PSG a'r Bwrdd, o leiaf yn ymwybodol o'r trafodaethau gyda gweithredwr y felin lifio. Rhoddodd CNC lythyr i mi dyddiedig 16 Hydref 2016 gan gyn-Gyfarwyddwr Gweithredol dros Wasanaethau Cenedlaethol CNC lle dywed ei fod wedi rhoi gwybod i Brif Weithredwr CNC am y trafodaethau oedd yn digwydd ar y pryd gyda gweithredwr y felin lifio. Hefyd, darparodd CNC un o bapurau'r Bwrdd dyddiedig 15 Hydref 2013 oedd yn cyfeirio at y broses o fidio cystadleuol a bod trafodaethau pellach ynghylch penderfyniadau buddsoddi gan broseswyr (ond, fel y nodwyd uchod, ni roes y papur fwy o fanylion). Bu aelod anweithredol o'r Bwrdd mewn cyfarfod gyda gweithredwr y felin lifio yn Awst 2013 a darparodd CNC gofnodion y bwrdd sydd yn dangos i hyn gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Bwrdd ar 3 Medi 2013.

37 Cadarnhaodd Prif Weithredwr CNC wrthyf ei fod ef a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r trafodaethau gyda gweithredwr y felin lifio ac y cydymffurfiwyd â gofynion y Cynllun Dirprwyo Ariannol. Serch hynny, yr wyf yn pryderu nad ymddengys bod y Bwrdd a/neu'r Tîm Gweithredol wedi craffu ar y cynnig, na'i drafod, o ystyried ei faint ariannol a'i natur gynhennus ac ôl-effeithiol.

## Gofyniad i gyfeirio gweithgareddau a chynigion newydd, ôl-effeithiol neu gynhennus at Lywodraeth Cymru i graffu arnynt a/neu eu cymeradwyo

38 Er bod CNC wedi cydymffurfio â'i drefniadau dirprwyo mewnol, y brif ddogfen sy'n darparu'r awdurdod dros drafodion CNC yw Dogfen Fframwaith CNC. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn datgan fod talu cymorth grant i CNC yn amodol ar berfformiad boddhaol gan CNC o'i holl oblygiadau fel y'u datganwyd yn y Ddogfen Fframwaith, sydd yn cynnwys cydymffurfio a chyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae a wnelo'r gofyniad i gydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ag adran 70 (2) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (2) sy'n dweud: 'y gall Gweinidogion Cymru osod amodau i roi cymorth ariannol ganddynt; ac y mae'r amodau y gellir eu hatodi yn cynnwys, yn benodol, amodau ynghylch ad-dalu'r cyfan neu ran o unrhyw grant, neu wneud unrhyw daliadau eraill, dan unrhyw amgylchiadau.'

39 Dan y teitl 'Gwariant', dywed paragraff 3.9.1 o Ddogfen Fframwaith CNC: 'y bydd CNC yn cydymffurfio â'r dirprwyiadau a osodir allan yn Atodiad 5'. Dywed Atodiad 5 fod angen cymeradwyaeth y tîm noddi ar gyfer unrhyw gynigion newydd, cynhennus neu ôl-effeithiol.

40 Dywed paragraff 3.9.8 y Ddogfen Fframwaith fod yn rhaid cynnal gweithgareddau cynhyrchu incwm CNC yn unol â thelerau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Ddogfen Fframwaith. Hefyd, dywed paragraff 1.2.9 y Ddogfen Fframwaith mai Prif Weithredwr CNC, fel y Swyddog Cyfrifo, sydd yn bersonol gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

41 Yr wyf wedi ystyried y fersiwn o Reoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru oedd mewn grym ar yr adeg berthnasol. Dywed y ddogfen hon ym mharagraff 3.8.3: 'Mae'r ddogfen fframwaith y cytunir arni rhwng corff cyhoeddus a'i noddwr yn wastad yn rhagweld y bydd yr adran noddi yn arfer goruchwyliaeth ystyrlon dros strategaeth a pherfformiad y corff cyhoeddus, trefniadau ariannol a/neu drafodion ariannol mawr, e.e. trwy gyfrwng cofnodion misol, dirprwyo safonol, adrodd am eithriadau neu dechnegau eraill. Dylai cyrff cyhoeddus gyfeirio at eu hadrannau noddi unrhyw weithgareddau sydd yn ymddangos yn newydd, yn gynhennus neu ôl-effeithiol; yn eu tro, gall yr adran noddi fod angen ceisio cydsyniad Uned Llywodraethiant Corfforaethol LlCC.' Nid yw Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn cyfyngu'r gofyniad i gyfeirio gweithgareddau newydd, cynhennus neu ôl-effeithiol i wariant.

42 Yr wyf yn fodlon felly fod Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn mynnu bod CNC yn cyfeirio unrhyw weithgareddau at adrannau noddi Llywodraeth Cymru petaent yn ymddangos yn newydd, yn gynhennus neu ôl-effeithiol.

43 Nid yw'r Ddogfen Fframwaith na Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn diffinio cynigion 'newydd, cynhennus neu ôl-effeithiol', er bod yr olaf hwn yn rhoi rhai enghreifftiau. Mae pennu a yw cynnig neu weithgaredd yn newydd, yn gynhennus neu yn ôl-effeithiol, yn fater o ffaith a barn.

44 Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn diffinio 'cynhennus' fel 'yn achos cynnen, yn asgwrn cynnen' a Geiriadur yr Academi yn diffinio'r enw 'repercussion' fel 'ôl-effaith [digwyddiad neu weithred], sgil-effaith'. (Nid yw'r ansoddair ôl-effeithiol' yn y geiriadur). Dywedodd Prif Weithredwr CNC wrthyf nad yw'n ystyried bod y penderfyniad i gontractio gyda gweithredwr y felin lifio ym Mai 2014 yn gynhennus nac yn ôl-effeithiol. Yr wyf yn anghytuno, ac yn ystyried ei fod yn gynhennus ac yn ôl-effeithiol am y rhesymau a ganlyn:

- Yr oedd y contractau a ddyfarnwyd i weithredwr y felin lifio yn sylweddol iawn eu maint; amcangyfrifodd CNC fod cyfaint y pren a werthwyd gan y contractau hyn oddeutu 20 i 25% o gyfanswm y pren oedd ar gael ar y farchnad gan CNC dros gyfnod o ddeng mlynedd a chafodd dyfarnu contract mor fawr i un prynwr effeithiau ehangach ar y farchnad. Mae papur Tîm Gweithredol CNC ar Awst 2013 yn cydnabod, o ganlyniad i'r contract arfaethedig gyda gweithredwr y felin lifio, mai 'ychydig iawn o byrwydd fydd i'w gynnig i fasnachwyr coed sy'n sefyll dros y pum mlynedd nesaf'.
- Dyfarnwyd y contractau am larwydd a phyrwydd yn dilyn tendr cystadleuol am gontractau llarwydd (lle nad gweithredwr y felin lifio oedd y bidiwr llwyddiannus; er hynny, penderfynodd CNC gynnig contractau am larwydd i'r tri bidiwr) ac felly ni chafodd unrhyw brynwyr posib eraill gyfle i brynu cyfaint y pren llarwydd a phyrwydd a ddyfarnwyd yn y pen draw i weithredwr y felin lifio. Barn CNC yw nad oedd marchnad am larwydd afiach, a hyn ar sail (a) diffyg diddordeb mewn 21 llain unigol o goed y ceisiodd CNC eu gwerthu rhwng Tachwedd 2012 a Medi 2013 y cyfeirir atynt ym mharagraff 71; a (b) mai dim ond tri bid a dderbyniwyd mewn ymateb i dendr 2013 y cyfeirir ato

ym mharagraffau 5 i 14. Yn fy marn i, nid yw maint y lleiniau hynny na chynnig y tendr i'w cymharu â'r cynnig o wyth Contract Tymor Hir (CTH) am larwydd a phyrwydd afiach, yn enwedig gan i weithredwr y felin lifio ei hun ddweud yn glir na fyddai pedwar CTH am larwydd yn ddigon iddo fuddsoddi yn y llinell lifio newydd. Cynlluniwyd cyfaint y contract a ddyfarnwyd i weithredwr y felin lifio i'w alluogi i wneud buddsoddiad mawr yn ei felin lifio. Galluogodd y buddsoddiad hwn weithredwr y felin lifio i gynyddu ei gapasiti prosesu yn sylweddol. Ystyria CNC ei bod yn anhebygol iawn y buasai gan unrhyw weithredwyr eraill ddiddordeb mewn cyfeintiau mor sylweddol o larwydd afiach a'r amserlenni pryd yr oedd yn rhaid i CNC weithredu a'u bod yn ymwybodol o'r risg o her y pryd hwn, ond 'eu barn broffesiynol hwy oedd nad oedd dewis arall'. Fodd bynnag, nid oes fawr ddim yn y ddogfennaeth gyfoes i dystio fod swyddogion CNC wedi rhoi ystyriaeth ofalus i weld a allai cyfeintiau uwch ddenu diddordeb o amred ehangach o gwmnïau pren (h.y., cwmnïau na fidiodd yng nghystadleuaeth 2013) nac a allasai'r cyfeintiau hynny fod wedi bod yn ddigon i annog cystadleuwyr eraill i fuddsoddi mewn capasiti ychwanegol. Yn fy marn i, ymddengys bod ymrwymiad CNC i werthu i weithredwr y felin lifio gyfaint uchel o bren dros gyfnod o ddeng mlynedd yn gyfle y gallasai cwmnïau eraill wedi ymddiddori ynddo.

- Ni fu profion ar y farchnad berthnasol yn sail i'r penderfyniad i ddyfarnu'r contractau.
- Yr oedd papurau mewnol a baratowyd gan CNC yn cydnabod y risgiau cysylltiedig â dyfarnu'r contractau hyn o gofio na fu gweithredwr y felin lifio yn llwyddiannus yn yr ymarferiad tendr a gynhaliwyd yn 2013. Yr oedd y papurau hefyd yn cydnabod y gallasai'r penderfyniad i ddyfarnu'r contractau i weithredwr y felin lifio fel hyn fod yn destun herio.

45 Ystyriaf felly y dylid bod wedi cyfeirio'r cynnig at adran noddi CNC yn Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

46 Dywedodd CNC wrthyf ar y pryd nad oedd yn ystyried bod dyfarnu'r contractau yn gynhennus nac ôl-effeithiol. Dywedodd CNC hefyd wrthyf fod y Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broses a rhoes CNC i mi gopi o ebost a anfonwyd at adran noddi CNC yn Llywodraeth Cymru ar 4 Awst 2013 (naw mis cyn cytuno ar y contractau). Anfonwyd yr ebost at Lywodraeth Cymru yn dilyn derbyn yr ohebiaeth gan weithredwr y felin lifio y cyfeirir ato ym mharagraff 17. Datganodd yr ebost at Lywodraeth Cymru bryder CNC y gallai gweithredwr y felin lifio geisio lobio Gweinidogion yn dilyn ei dendr aflwyddiannus a'i amharodrwydd i dderbyn cynnig a oedd yn ei farn yn 'hollol annigonol ac annerbyniol.'

47 Nid yw’r ebost yn rhoi manylion y cynnig a wnaed i weithredwr y felin lifio a dywed: ‘y byddwn yn parhau i siarad â [gweithredwr y felin lifio] a datblygu safbwyntiau i’w cymryd er mwyn cael deilliant da i bawb ’. Nid wyf yn ystyried bod yr ebost yn gyfystyr â chyfeiriad at Lywodraeth Cymru. Yr wyf o’r farn mai’r diben oedd tynnu sylw Llywodraeth Cymru at lobio posib ac nid gwneud Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bwnc oedd yn gynhennus ac ôl-effeithiol. Ymhellach, fel ar 4 Awst 2013, nid oedd cyfaint y pren a gynigiwyd i weithredwr y felin lifio yn ddim ond 14% o’r cyfanswm a werthwyd yn y pen draw i weithredwr y felin lifio dan y contractau y daethpwyd iddynt ym Mai 2014, ac mai ar gyfer llarwydd yn unig yr oedd y cynnig.

48 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthyf, tra bod eu swyddogion coedwigaeth yn ymwybodol fod trafodaethau yn digwydd rhwng CNC a gweithredwr y felin lifio, nad oeddent hwy yn ymwneud â’r manylion. Ymhellach, rhoes swyddogion coedwigaeth Llywodraeth Cymru wybodaeth i’r Gweinidog perthnasol cyn ymweliad gweinidogol ag eiddo gweithredwr y felin lifio i’r perwyl fod: ‘gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn sicrhau marchnad gystadleuol am goed, er lles y sector a’i refeniw ei hun trwy werthiannau pren CNC. Dylid cydbwyso cyfleoedd i [weithredwr y felin lifio] ehangu gan farchnata pren yn deg, agored a thryloyw o’r stad coetiroedd [Llywodraeth Cymru].’

49 Ystyriaf felly na chyfarfu CNC â gofynion y Ddogfen Fframwaith na Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru i gyfeirio cynnig cynhennus ac ôl-effeithiol i Lywodraeth Cymru. Ystyriaf fod y trafodion sy’n ymwneud â’r contractau a gynhwysir yn natganiadau ariannol CNC am 2015/2016 y tu allan i’r fframwaith awdurdod sydd yn eu llywodraethu a’u bod felly yn afreolaidd. O ganlyniad, yr wyf wedi amodi fy marn rheoleidd-dra am ddatganiadau ariannol CNC am 2015/2016.

# Cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth wneud penderfyniadau

## Effaith pryderon am gyfreithlondeb ar y farn am reoleidd-dra

50 Lle mae ansicrwydd arwyddocaol a yw trafodion yn gyfreithlon neu beidio, ni allaf roi barn glir. Mae hyn oherwydd nad oes modd yn rhesymol rhoi sicrwydd cadarnhaol lle mae ansicrwydd arwyddocaol yn bodoli.

51 Fel rhan o’m hystyriaethau yn arwain at roi fy marn rheoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol CNC am 2015/16, fe ystyriais felly bryderon yn ymwneud â chyfreithlondeb trafodion cysylltiedig â chontractau y daeth CNC iddynt gyda gweithredwr y felin lifio ym Mai 2014. Pryderon oedd y rhain ynghylch a oedd penderfyniad CNC i ddyfarnu’r contractau i weithredwr y felin lifio yn gyfreithlon neu beidio o ran cyfraith gyhoeddus a rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

52 Rwy’n nodi fod f’ystyriaeth o’r trafodion yn codi yng nghyd-destun fy swyddogaethau archwilio ac nad ydynt yn ymwneud â dilysrwydd y penderfyniadau a gymerwyd gan CNC na’r gallu i’w gorfodi (a nodaf bwynt CNC na cheisiodd yr un o gynrychiolwyr y diwydiant herio dyfarnu’r contractau). Erys y penderfyniad i ddyfarnu’r contractau yn ddilys yn niffyg unrhyw her a diddymu gan Lys. Mae fy marn reoleidd-dra, fodd bynnag, ar ffurf sicrwydd cadarnhaol sy’n golygu fy mod yn datgan a yw’r trafodion yn unol â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu neu beidio.

53 Mae f’ystyriaethau o’r materion hyn i’w gweld isod.

54 I benderfyniad gan gorff cyhoeddus fod yn gyfreithlon, rhaid ei wneud yn unol â’r ddeddfwriaeth gymwys ac ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus (er enghraifft, ni ddylai’r penderfyniad fod yn afresymol). Dylai penderfyniad gael ei wneud yn unol â pholisïau’r corff cyhoeddus, onid oes rheswm da dros wyro oddi wrthynt.

## Pwerau

55 Yr wyf wedi ystyried a oedd gan CNC y pwerau cyfreithiol i ddod i gontractau am werthu coed gyda gweithredwr y felin lifio ym Mai 2014. Ar yr adeg berthnasol, yr oedd Deddf Coedwigaeth 1967 (y ‘Ddeddf’) yn gymwys i CNC. Dan y Ddeddf, mae gan CNC ddyletswydd gyffredinol i hybu buddiannau coedwigaeth, datblygu fforestu a chynhyrchu a chyflenwi pren a chynhyrchion coedwigaeth eraill. Mae gan CNC y pŵer i werthu neu i waredu unrhyw bren sy’n eiddo iddynt ac yn gyffredinol i hybu cyflenwi, gwerthu, defnyddio a throsi pren.

56 Hefyd, yr oedd Gorchymyn 2012 yn darparu, ar yr adeg berthnasol, mai pwrpas CNC oedd sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn: (a) cael eu cynnal yn gynaliadwy, (b) yn cael eu gwella yn gynaliadwy ac (c) yn cael eu defnyddio yn gynaliadwy. Dan Orchymyn 2012, mae gan CNC y pŵer i godi am ‘waith y mae’n gyflawni ac am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau y mae’n eu darparu’. Mae ganddynt hefyd bwerau achlysurol dan Orchymyn 2012 i ‘wneud unrhyw beth sy’n ymddangos iddynt fyddai’n gymorth neu yn deillio o gyflawni ei swyddogaethau’, ac yn benodol (ymysg pethau eraill) i ddod i gytundebau, a chael neu waredu eiddo.

57 Yr oedd CNC hefyd yn destun rhybuddion statudol dan Orchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 yng nghyswllt y coed llarwydd afiach mewn ardaloedd penodol oedd yn mynnu cwympo, dinistrio a/neu gyfyngu ar goed heintiedig o fewn amserlen a benodwyd. Yr oedd dyletswydd gyfreithiol felly ar CNC yng nghyswllt y coed llarwydd afiach ac fe wnaethant geisio cydymffurfio â’r ddyletswydd honno trwy arfer eu pwerau i ddod i gontractau i werthu coed oedd yn sefyll a phren a gwympwyd.

58 Yr wyf yn fodlon felly fod gan CNC y pwerau angenrheidiol i ddod i gontractau gwerthu pren ym Mai 2014.

## Polisïau

59 Fel y nodwyd uchod, rhaid i gyrff cyhoeddus: (a) ystyried a (b) dilyn polisïau perthnasol, onid oes ganddynt reswm da dros wyro oddi wrthynt, neu o leiaf fod ganddynt resymau a ddatganwyd yn glir dros y gwyro. Gall methu â gwneud hyn olygu bod penderfyniad, ac yn sgil hynny, eitem gyfrifo, yn groes i'r gyfraith. Mae'r gyfraith gyhoeddus hefyd yn mynnu cadarnhau a phrofi unrhyw resymau a roddir.

60 Gwelais beth tystiolaeth fod CNC wedi cymryd eu polisïau i ystyriaeth ac wedi ystyried a oedd rhesymau da i wyro oddi wrthynt. Er enghraifft, yr oedd yr adroddiad gwerthuso tendr a gynhyrchwyd ym mis Gorffennaf a phapur y Tîm Gweithredol dyddiedig Awst 2013 yn cynnwys ystyriaeth o wahanol ddewisiadau, gan gynnwys mynd yn ôl at y farchnad.

61 Fodd bynnag, mae bwlch tystiolaethol (yng nghyswllt gwneud penderfyniadau mewnol CNC) rhwng papur y Tîm Gweithredol dyddiedig Awst 2013 a'r contractau y daethpwyd iddynt gan CNC ym Mai 2014. Pe na bai'r polisïau wedi eu cymryd i ystyriaeth ond fod y penderfyniad er hynny yn amlwg yn dilyn y polisi hwn, byddai hyn yn annhebyg o beri bod y contractau a'r trafodion cysylltiedig yn anghyfreithlon. Yr wyf felly wedi ystyried a oes enghreifftiau o wyro oddi wrth bolisïau CNC heb i resymau da dros wneud hynny gael eu datgan.

62 Yr oedd polisi gwerthu pren CNC ar y cyfnod perthnasol wedi ei gynnwys yn Strategaeth Marchnata Pren CCC 2011 - 2016. Yr oedd y ddogfen hon yn ymdrin â gwerthiannau coed oedd yn sefyll a phren wrth ochr y ffordd. Dywedai hefyd mai amcanion marchnata CNC wrth werthu pren oedd y buasent yn gwneud y canlynol:

- 'Sicrhau'r gwerth gorau o werthu pren trwy ei gynnig ar werth am mewn dull teg, agored a thryloyw;
- cynnig pren ar y farchnad mewn ffyrdd sydd yn caniatáu i'r nifer ymarferol mwyaf o gwsmeriaid i gystadlu amdano ac mewn ffyrdd sydd yn cydnabod anghenion busnes cwsmeriaid CNC ac yn eu galluogi i ychwanegu'r gwerth mwyaf posib iddo;
- cynnig pren mewn ffyrdd sydd yn cynnal buddsoddiad yn yr holl gadwyn gyflenwi, o gynaeafu trwodd at brosesu ac sydd yn canolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r gadwyn gyflenwi honno yn wannach; a
- cynnig pren mewn ffyrdd sydd yn annog ei ddefnyddio yn y modd gorau i helpu Cymru i ostwng ei ôl troed carbon.'

63 Yn yr achos hwn, ni chafodd y pren pyrwydd a llarwydd ei gynnig ar werth ar y farchnad, a allai fod yn groes i (a) a (b) uchod. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys adran: 'Ymdrin â digwyddiadau annisgwyl' ac, yn benodol, datganiad a ddywed: 'Dan amgylchiadau eithriadol yn unig, gallwn benderfynu trafod gwerthu pren i gwsmeriaid a all ymateb yn sydyn i ddigwyddiadau.'

64 Mae CNC yn dadlau, ac wedi darparu tystiolaeth gyfoes i gefnogi hynny, fod yr amgylchiadau yr oeddent yn wynebu yn 2013, h.y. y cynnydd buan yn lledaeniad P Ramorum yn ystod misoedd yr haf, yn 'amgylchiadau eithriadol' oedd yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth eu hamcanion marchnata pren fel y'u datganwyd. Ystyriwyd bod angen hyn oherwydd bod yn rhaid i CNC weithredu ar frys i gael ateb tymor-hir i wrthweithio'r clefyd.

65 Yr wyf yn fodlon o'r herwydd fod CNC wedi dangos fod rheswm da dros wyro oddi wrth eu polisi arferol a bod amgylchiadau eithriadol a allai beri iddynt benderfynu trafod gwerthu pren i'r cwsmeriaid hynny allai ymateb yn sydyn.

## Proses

66 Ym mharagraffau 5 i 31 yr wyf wedi gosod allan yr hyn a ddeallaf i am y broses o wneud penderfyniadau a ddilynwyd gan CNC ac a arweiniodd at ddyfarnu contractau i weithredwr y felin lifio ym Mai 2014.

67 O ystyried y broses o wneud penderfyniadau yn ei gyfanrwydd, mae'n amlwg fod CNC wedi cymryd camau ar wahanol gyfnodau i asesu manteision ac anfanteision y dewisiadau oedd ar gael iddynt. Fodd bynnag, ac yn bwysig iawn, ni fedrodd CNC roi fawr ddim dogfennaeth i mi parthed eu penderfyniad i gytuno ar y contractau llarwydd a phyrwydd a'r Memorandwm Dealltwriaeth. Yn benodol, does fawr ddim dogfennaeth ynghylch y penderfyniad i ddod i'r contractau (yr ymddengys iddo gael ei gymryd ym mis Tachwedd 2013). Yn ddiweddar, darparodd CNC ddogfennaeth i mi am y trafodaethau a ddigwyddodd rhwng Awst 2013 a Mai 2014. Safbwynt CNC yw bod y trafodaethau hyd at 14 Tachwedd yn unol â'r modd o wneud penderfyniadau oedd yn deillio o bapur y Tîm Gweithredol a bod y contractau y daethpwyd iddynt i raddau helaeth ar delerau safonol y Comisiwn Coedwigaeth/CNC ac yn unol â'r strategaeth ym mhapur y Tîm Gweithredol. Yn fy marn i, ar sail y cofnodion a ddarparwyd gan CNC, nid oes digon o ddogfennaeth yng nghyswllt y penderfyniad i ddod i'r contractau ac nid oes modd bod yn sicr ynghylch pa ffactorau a ystyriwyd gan y sawl wnaeth y penderfyniad wrth ddod i'r contractau ac o ganlyniad a oedd y penderfyniadau a gymerwyd yn gyfreithiol ai peidio.

68 Oherwydd methiant CNC i gadw digon o ddogfennaeth gyfoes yn gosod allan eu penderfyniadau yn ystod y cyfnod hwn a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny, ni fedrais fodloni fy hun ar rai materion allweddol. Dywedodd CNC wrthyf, a hwythau newydd orffen ymarferiad marchnad agored am larwydd afiach, eu bod o'r farn fod y pwysau amser, o achos lledaeniad cyflym y clefyd, yn gyfryw fel y byddai ailadrodd yr ymarferiad yn oedi eu hymateb yn sylweddol o fisoedd lawer, a thybiodd eu tîm marchnata pren profiadol iawn y buasai'n dra anhebygol o ddenu unrhyw bartïon newydd fyddai â diddordeb.

69 Ni chefais fy mherswadio, fodd bynnag, mai'r angen brys am i CNC gontractio er mwyn ymdrin â lledaeniad sydyn P Ramorum oedd y rheswm, neu'r unig reswm y daeth CNC i'r contractau gyda gweithredwr y felin lifio. Yr wyf yn pryderu mai un o ystyriaethau CNC, efallai, oedd sicrhau'r buddsoddiad yn eiddo gweithredwr y felin. Mae'n dra anhebygol y byddai hyn yn ystyriaeth gyfreithlon ynddo'i hun. Darparodd CNC beth tystiolaeth i gefnogi dyfarnu contractau ar sail brys, a dywedodd mai eu pwrpas oedd cynyddu'r capasiti i brosesu llarwydd afiach ac nad oedd unrhyw ddewisiadau eraill yn y farchnad, ond yn eu dogfennau mewnol, maent yn cyfeirio hefyd at yr amcan o fod eisiau cefnogi buddsoddiad gweithredwr y felin lifio.

70 Mynna CNC, ac yr wyf yn derbyn hyn, efallai mai ystyriaeth waelodol CNC oedd cynyddu capasiti fel ffordd o drin y swm cynyddol o larwydd heintiedig i'w brosesu yn y blynyddoedd i ddod. Er bod hyn yn gymhelliad a allasai fod yn ddilys, derbyniais sylwadau gan gynrychiolwyr y diwydiant i'r perwyl fod yn 2013 gryn gapasiti heb ei ddefnyddio mewn melinau llifio eraill yng Nghymru a fuasai wedi cymryd cymaint o bren ag y gellid ei gyflenwi, yn amodol ar bris. Os yw hyn yn wir, y mae'n amlwg yn ystyriaeth berthnasol y dylasai CNC fod wedi bod yn ymwybodol ohono. Os oeddent yn ymwybodol ohono, byddai'n codi cwestiwn ynghylch cymhelliad CNC i ddod i'r contractau hyn gyda gweithredwr y felin lifio. Mae CNC yn gwadu'n gryf yr honiad fod capasiti nas defnyddiwyd mewn melinau llifio.

71 Y mae CNC o'r farn nad oedd marchnad i larwydd heintiedig, oherwydd yn ystod Tachwedd 2012 i Fedi 2013 ceisiodd y Comisiwn Coedwigaeth/CNC werthu 21 pecyn unigol o larwydd heintiedig, ac o'r rhain, ni chafwyd bidiau o gwbl am saith, derbyniodd wyth un bid yn unig, ac ni dderbyniodd yr un pecyn fwy na thri bid. Hysbysodd CNC fi mai'r pris cyfartalog oedd pris negyddol o -£20.71 y dunnell. Mae CNC hefyd yn ystyried y dengys y tri bid a dderbyniwyd mewn ymateb i dendr 2013 nad oedd galw am newid i larwydd afiach, na'r capasiti i wneud hynny. Fel y crybwyllwyd uchod, yn fy marn i, nid yw maint y pecynnau hynny a chynnig y tendr i'w gymharu â'r contractau y daeth CNC iddynt gyda gweithredwr y felin lifio. Cynlluniwyd cyfaint y contract a ddyfarnwyd i weithredwr y felin lifio i'w alluogi i wneud buddsoddiad mawr yn ei felin lifio. Galluogodd y buddsoddiad hwn weithredwr y felin lifio i gynyddu ei gapasiti prosesu yn sylweddol. Ymddengys bod ymrwymiad CNC i werthu i weithredwr y felin lifio gyfaint uchel o bren dros gyfnod o ddeng mlynedd yn gyfle y gallasai cwmniau eraill fod â diddordeb ynddo.

72 Yr wyf yn pryderu hefyd y gall CNC fod wedi dod dan ddylanwad datganiad gweithredwr y felin lifio a ddywedai, oni fyddai CNC yn newid eu safbwynt y buasai am fuddsoddi ei arian a'i amser y tu allan i Gymru (cyfeiriad ym mharagraff 17). Sylwaf fod CNC wedi hysbysu Llywodraeth Cymru trwy ebost ar 4 Awst 2016 fod gweithredwr y felin lifio yn defnyddio gosodiadau o'r fath i ddwyn pwysau. Nodaf hefyd i CNC ddweud eu bod wedi arfer â'r math hwn o ymddygiad, ac na fyddai'n dylanwadu arnynt. Er hynny, yr wyf yn dal yn bryderus y gall pwysau gweithredwr y felin lifio fod wedi dylanwadu ar CNC gan nad yw dogfennaeth CNC yn ei gyfanrwydd yn gosod allan gofnod clir o'r broses o wneud penderfyniadau.

73 Yr wyf o’r farn yr erys cwestiynau difrifol ynghylch pam, o gofio fod gweithredwr y felin lifio yn aflwyddiannus yn y tendr cystadleuol, y dyfarnwyd iddo yn y pen draw gyfaint mor uchel o bren ar sail fod CNC yn teimlo fod angen mwy o gapasiti. Y mae hyn yng nghyd-destun y ffaith nad aeth CNC allan i’r farchnad i weld a allai cwmniau eraill gynyddu capasiti mewn modd fyddai’n rhoi gwell gwerth am arian.

74 Er bod gennyf bryderon ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, nid yw’r dystiolaeth yn ddigonol i mi allu dod i gasgliad fod y penderfyniad i ddod i’r contractau yn torri egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Nid yw f’ansicrwydd yn golygu y dylid synied yn awr am y contractau fel rhai anghyfreithlon fel sydd wedi ei osod allan ym mharagraff 52; fodd bynnag, y mae’n golygu na allaf roi barn reoleidd-dra ddiamod ar y datganiadau ariannol.

75 Dywedodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wrthyf ei fod yn ystyried fod amodi’r farn reoleidd-dra yn anghymesur â’r diffygion a nodwyd a’i fod yn anghytuno â’m casgliadau ac yn dibynnu ar gyngor cyfreithiol a geisiodd CNC yn ystod f’ymchwiliad archwilio ac a rannwyd gyda mi. Fodd bynnag, yr wyf wedi ceisio fy nghyngor cyfreithiol fy hun gan Gwnsler (gan gynnwys yng nghyswllt cyngor CNC) a chytunaf gyda’r cyngor a dderbyniais, sef nad oes digon o dystiolaeth i ddod i’r casgliad fod y broses o wneud penderfyniadau yn cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Mae’r ansicrwydd arwyddocaol sy’n bodoli yn golygu fy mod yn ystyried mai’r cam cywir a chymesur i mi gymryd fel archwiliwr CNC yw i mi amodi fy marn reoleidd-dra.

# Cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol

76 Arweiniodd penderfyniad CNC i ddod i gontractau gwerthu pren gyda gweithredwr y felin lifio heb agor y cyfle allan i’r farchnad ehangach fi i ystyried a roes CNC Gymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon i weithredwr y felin lifio.

77 Cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw gymorth a roddir gan Aelod-Wladwriaeth o’r UE neu trwy adnoddau’r Wladwriaeth ar ba ffurf bynnag, sydd yn anffurfio neu yn bygwth anffurfio cystadleuaeth trwy ffafrio rhai ymgymeriadau neu gynhyrchu rhai nwyddau, i’r graddau y bydd hynny yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-Wladwriaethau (Erthygl 107 o’r Cytundeb ar Weithredu’r Undeb Ewropeaidd). Mae darparu Cymorth Gwladwriaethol yn anghyfreithlon oni chaiff ei awdurdodi ymlaen llaw, boed trwy ‘eithriad bloc’ sy’n bodoli eisoes neu trwy awdurdodi unigol a ganiateir gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn ymateb i hysbysiad gan y Wladwriaeth berthnasol.

78 Ceisiais gyngor cyfreithiol ynghylch a oedd dyfarnu contractau i weithredwr y felin lifio yn gyfystyr â Chymorth Gwladwriaethol i weithredwr y felin lifio neu beidio. Y cyngor a gefais yw bod hyn yn dibynnu oedd y contractau hynny yn gyfystyr â darparu ‘mantais economaidd’ i weithredwr y felin lifio neu beidio. Os oeddent, a bod gwerth y fantais honno o bosib yn berthnasol i fasnach ryng-Wladwriaethol (meincnod ar gyfer perthnasedd yn y cyd-destun hwn yw trothwy *de minimis* Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd o €200,000), yna bodlonir yr amodau eraill am Gymorth Gwladwriaethol hefyd oherwydd y byddai’r cyfryw fantais economaidd:

a. yn amlwg yn cael ei roi o adnoddau’r Wladwriaeth, oherwydd bod asedau CNC (gan gynnwys coed y mae ganddynt yr hawdd i’w gwerthu) yn adnoddau’r Wladwriaeth, a bod penderfyniadau CNC i’w priodoli i’r Deyrnas Unedig fel Aelod-Wladwriaeth o’r UE;

b. yn amlwg yn ‘ddetholus’, gan y byddai’r fantais wedi’i rhoi yn benodol i weithredwr y felin lifio ac nid i weithredwyr melinau llifio eraill; a

c. hefyd yn dueddol o anffurfio cystadleuaeth ac effeithio ar fasnach ryng-Wladwriaeth, oherwydd (i) byddai’r fantais yn cryfhau safle economaidd cyffredinol y grŵp corfforaethol y mae gweithredwr y felin lifio yn rhan ohono, a (ii) bod y marchnadoedd (fel y rhai am bren a chynnyrch pren) lle mae’r grŵp corfforaethol hwnnw yn cystadlu yn farchnadoedd lle mae yn amlwg gryn dipyn o fasnach drawsffiniol yn yr UE.

79 Mae’r mathau o fesurau a all fod yn ‘fantais economaidd’ a ddarperir gan y Wladwriaeth yn cynnwys mesurau ariannol uniongyrchol (e.e. buddsoddiadau cyfalaf neu fenthyciadau di-log), mesurau ariannol anuniongyrchol (e.e. hepgor dyledion neu eithrio o drethi) a darparu asedau, gwasanaethau neu seilwaith unswydd am ddim neu am bris is na’r gwerth. Bydd dyfarnu contract yn gyfystyr â mantais lle mae ei delerau yn ormodol hael (o gymharu â ‘thelerau’r farchnad’) i’r ymgymeriad, boed hynny oherwydd bod y telerau hynny yn darparu am gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i’r ymgymeriad am bris sy’n is na’u gwerth, neu am eu bod yn trefnu i’r ymgymeriad dderbyn tâl am y nwyddau neu’r gwasanaethau mae’n eu cyflenwi ac sydd yn uwch na phris y farchnad.

80 Mae baich y prawf yng nghyswllt dangos fod y mesur yn fantais economaidd ar y person (y Comisiwn Ewropeaidd fel arfer) sy’n honni ei fod yn gwneud hynny. Mae’r Comisiwn Ewropeaidd, yn ei benderfyniadau a’i ganllawiau cyhoeddedig, wedi mabwysiadu’r safbwynt ei fod yn rheidrwydd ar y corff Gwladwriaethol sydd yn dyfarnu contract, neu’n gwerthu tir neu asedau gwerthfawr eraill, naill ai i (a) gynnal proses gystadleuol neu, (b) lle nad yw’n ymarferol cynnal cystadleuaeth, o leiaf i ddefnyddio ‘profi’r farchnad’ neu fecanwaith arall ar gyfer gwirio bod y telerau y cytuna arnynt yn y pen draw yn unol â thelerau’r farchnad ac felly nad ydynt yn rhoi unrhyw fantais economaidd. Lle na wnaeth y corff Gwladwriaethol hynny, y safbwynt fel mater o gyfraith o hyd yw bod baich y prawf o fantais ar y person sy’n honni’r fantais. Serch hynny, bydd y Comisiwn Ewropeaidd fel arfer yn cymryd y safbwynt fod ganddo’r hawl i dybio o’r amgylchiadau (neu ‘ragdyb gwrthbrofadwy’)

fod telerau'r contract yn hael i'r ymgymeriad o gymharu â'r telerau fuasai wedi deillio o broses gystadleuol.

81 Ni chyfyd unrhyw fantais economaidd lle mae'r Wladwriaeth yn gwneud rhywbeth (megis gwerthu darn o dir sy'n eiddo iddi) y gellir ei wneud hefyd gan endidau heb fod yn Wladwriaethau, a'i bod yn gwneud hynny ar delerau y gallasai endid heb fod yn Wladwriaeth mewn sefyllfa debyg fod yn barod i'w derbyn *am resymau masnachol*. 'Egwyddor gweithredwr economi'r farchnad' yw'r enw am hyn. Er mwyn cymhwyso'r egwyddor hon, rhaid cymharu ymddygiad CNC gyda'r hyn y byddai cwmni masnachol wedi ei wneud dan amgylchiadau tebyg. Gall hyn beri anawsterau tystiolaethol oherwydd nad yw tystiolaeth o'r hyn y gallasai cwmni masnachol fod wedi ei wneud ar gael ac oherwydd y gall fod lle i ddadlau ynghylch a ddylai rhai amcanion neu fuddiannau fod ymysg yr hyn sy'n cael ei briodoli neu beidio i'r cwmni masnachol damcaniaethol. Ni chefais fy mherswadio fod CNC wedi gweithredu fel y buasai cwmni masnachol wedi gwneud oherwydd mai un o resymau CNC dros geisio cynyddu capasiti i brosesu llarwydd afiach oedd sicrhau mwy o gapasiti, i stadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, nad yw'n ystyriaeth y buasai cwmni masnachol wedi ei gadw mewn cof.

82 Safbwynt CNC yw nad oedd gan weithredwr y felin lifio nifer arwyddocaol o gwsmeriaid tramor ac nad oedd y contractau felly yn cael yr effaith ofynnol ar fasnach ryng-Wladwriaethol. Fodd bynnag, y cyngor a gefais i yw y rhagdybir bod mantais ddethol i gwmni penodol yn effeithio ar fasnach ryng-Wladwriaethol lle bo'r ymgymeriad sy'n derbyn y fantais honno yn weithredol mewn marchnadoedd a nodweddir gan gyfeintiau arwyddocaol o fasnach ryng-Wladwriaethol. Mae hynny yn wir boed yr ymgymeriad ei hun yn cyflenwi cwsmeriaid yn unrhyw un o Wladwriaethau eraill yr UE, neu fod ganddo bresenoldeb yno neu beidio. Mae masnach ryng-Wladwriaethol sylweddol iawn mewn marchnadoedd am bren a chynhyrchion pren, ac y mae gweithredwr y felin lifio yn masnachu yn drawsffiniol.

83 Mae'n amlwg o'r dogfennau cyfoes na phennwyd telerau'r contractau naill ai gan ganlyniad cystadleuaeth am gwrdd â gofynion perthnasol CNC, na chan brofion marchnad perthnasol eraill oedd yn canoli ar y gofynion hynny. Er bod profiad swyddogion CNC o'r bidiau a dderbyniwyd yn 2013 yn sail o wybodaeth iddynt, yr oedd y gwahaniaeth rhwng y cyfeintiau yn y gystadleuaeth honno, o gymharu â'r cyfeintiau oedd yn cael eu dyfarnu i weithredwr y felin lifio yn unig, yn sylweddol iawn. Nid oes fawr ddim yn y ddogfennaeth gyfoes i roi tystiolaeth fod swyddogion CNC wedi ystyried yn ofalus a allai'r cyfeintiau uwch ddenu diddordeb o du amrywiaeth ehangach o gwmnïau pren (h.y. cwmniau na fidiodd yng nghystadleuaeth 2013, gan gynnwys o bosib gwmnïau heb fod â phresenoldeb ar y pryd yng Nghymru). Nid yw'n ymddangos chwaith iddynt ystyried a allasai'r cyfeintiau hynny fod wedi bod yn ddigon i annog cystadleuwyr gweithredwr y felin lifio oedd â melinau llifio yng Nghymru i fuddsoddi mewn capasiti ychwanegol er mwyn gallu trin y cyfeintiau hynny. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol a fyddai'n arwain at y casgliad y gellid wfftio'r posibiliadau hyn fel rhai hollol afrealistig.

84 Petai telerau’r contractau yn adlewyrchu prisiau’r farchnad, yna ni fyddai unrhyw Gymorth Gwladwriaethol yn deillio o’r contractau, ac yr wyf yn derbyn y gall y contractau fod ar delerau’r farchnad. Fodd bynnag, nid oedd sail o brofion marchnad perthnasol i benderfyniad CNC i ddyfarnu’r contractau i weithredwr y felin lifio, ac nis cefnogwyd chwaith gan resymeg argyhoeddiadol fyddai’n cefnogi casgliad y buasai chwilio am ddarparwyr eraill o raid wedi bod yn ofer. Yn fy marn i, methodd CNC a dilyn y prosesau priodol er mwyn sicrhau y cafwyd yr allbynnau y contractiodd gyda gweithredwr y felin lifio amdanynt ar delerau’r farchnad. Mae’r methiant hwn yn codi amheuon ynghylch a yw’r contractau yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol neu beidio. Yn wyneb yr ansicrwydd hwn, ni allaf eto roi barn reoleidd-dra ddiamod am y datganiadau ariannol.

85 Fel y nodwyd ym mharagraff 75 uchod, dywedodd Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wrthyf ei fod yn ystyried fod amodi’r farn reoleidd-dra yn anghymesur â’r diffygion a nodwyd a’i fod yn anghytuno â’m casgliadau ac yn dibynnu ar gyngor cyfreithiol a geisiodd CNC yn ystod fy ymchwiliad archwilio ac a rannodd gyda mi. Fodd bynnag, ceisiais fy nghyngor cyfreithiol fy hun (gan gynnwys yng nghyswllt cyngor CNC), y cytunaf ag ef ac a ddywed nad oes digon o dystiolaeth i ddod i’r casgliad fod y broses o wneud penderfyniadau yn cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Mae’r ansicrwydd arwyddocaol sy’n bodoli yn golygu fy mod yn ystyried mai’r cam cywir a phriodol i mi ei gymryd fel archwiliwr CNC yw amodi fy marn reoleidd-dra.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru